

Cofnodion cyfarfod is-bwyllgor y Cabinet ar drefniadau pontio'r UE 7 Tachwedd 2018

Yn bresennol:

- Mark Drakeford AC (Cadeirydd Dros Dro)
 - Alun Davies AC
 - Lesley Griffiths AC
 - Kirsty Williams AC
 - Jeremy Miles AC
 - Rebecca Evans AC
-
- Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol
 - Diane Dunning, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
 - Simon Brindle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
 - Robert Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Deddfwriaeth
 - Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
 - Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
 - Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
 - Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
 - Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
 - Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
 - Sophie Jones, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
 - Tim Render, Cyfarwyddwr, Tir, Natur a Bwyd
 - Peter Halligan, y Prif Gynghorydd Gwyddonol
 - Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Masnach
 - Ed Sherriff, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
 - Peredur John, Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
 - Leon Griffiths, Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd

Ymddiheuriadau:

- Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog
- Ken Skates AC

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 2: Diweddariad ar Lafar ar y Datblygiadau

2.1 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a gadeiriodd y cyfarfod, gan nad oedd y Prif Weinidog ar gael. Rhoddwyd crynodeb o'r datblygiadau niferus a fu ers y cyfarfod diwethaf ar 19 Medi, ynghylch materion Brexit a oedd yn berthnasol i'r UE, y DU a Chymru.

2.2 Ar 11 Hydref, cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a Chyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop. Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE y newyddion diweddaraf am hynt y negodiadau, a chafwyd trafodaeth ar y materion domestig sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys fframweithiau cyffredin, parodrwydd, a deddfwriaeth. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynnal cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop yng Nghaerdydd.

2.3 Roedd y Cyngor Ewropeaidd wedi trafod Brexit ar 18 Hydref, gan ddweud y dylai ei negodydd barhau â'r ymdrechion i ddod i gytundeb gyda Llywodraeth y DU. Cytunwyd y dylai cyfarfod o'r Cyngor gael ei drefnu unwaith y byddai cynnydd pendant wedi ei wneud.

2.4 Ar 22 Hydref, cynhaliwyd y pumed Fforwm Gweinidogol, lle'r oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a hefyd y Gweinidog Tai ac Adfywio, yn bresennol. Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar gyflwr negodiadau'r UE, a chafwyd y newyddion diweddaraf gan Robin Walker, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cytundebau corfforaethol sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth ac Arloesi a Diwylliant, Addysg a'r Gofod, a hynt y cynlluniau hynny.

2.5 Roedd y Fforwm Gweinidogol wedi dod yn fwyfwy cadarnhaol.

2.6 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa mor bwysig yw hi bod y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn cymryd rhan yn Horizon 2020, gan bwysleisio'r angen i asesiadau gwerth am arian ystyried yn briodol faterion yn ymwneud ag ymarferoldeb darparu, yn ogystal â pharhau â'r mynediad at Erasmus.

2.7 Byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal ar 3 Rhagfyr, ac roedd disgwyl i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod yn bresennol, ochr yn ochr â'r Gweinidog Tai ac Adfywio. Byddai'r cyfarfod estynedig hwn yn gyfle i drafod dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth y DU mewn perthynas â gwasanaethau, yn ogystal ag edrych ar faterion yn ymwneud â Gwasanaethau Ariannol, ac Ynni a Thrafnidiaeth.

2.8 Ar 9 Tachwedd, byddai'r Prif Weinidog yn mynychu cyfarfod rhif tri deg un o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, lle byddai trafod pellach am faterion yn ymwneud â

Brexit, gan gynnwys cyfarfod tairochrog â Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn a Phrif Weinidog yr Alban.

2.9 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

Eitem 3a: Parodrwydd: Trosolwg a Chyfathrebu

3.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn gwahodd yr Is-bwyllgor i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a oedd yn cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE a'r dull gweithredu o ran cyfathrebu.

3.2 Hyd yma, bu cyfathrebu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar y neges y byddai dim cytundeb yn sefyllfa gwbl annerbyniol oherwydd ei heffaith negyddol enfawr. Er hynny roedd y neges yn ei gwneud yn glir bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gynllunio ymlaen llaw ac i baratoi busnesau a dinasyddion ar gyfer unrhyw beth a allai ddigwydd.

3.3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd amrywiaeth o gamau ac wedi cyfathrebu â gwahanol randdeiliaid er mwyn helpu sefydliadau i baratoi ar gyfer Brexit. Yn ystod y misoedd diwethaf, aethpwyd ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â sectorau a sefydliadau allweddol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio porth busnes ar gyfer Brexit, ac wedi cyhoeddi cyfres o brosiectau mewn gwahanol sectorau a oedd yn cael eu cefnogi gan gronfa bontio'r UE.

3.4 Nododd yr Is-bwyllgor y papur.

Eitem 3b: Parodrwydd: Yr Amgylchedd, Ynni, Amaethyddiaeth, a Physgodfeydd

3.5 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig y papur, a oedd yn rhoi golwg gyffredinol, i'r Is-bwyllgor, ar y prif feysydd gwaith ar draws EPRA o ran parodrwydd ar gyfer Brexit, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y gwaith y byddai angen ei gyflawni pe na bai cytundeb. Roedd y meysydd yn cynnwys deddfwriaeth, systemau masnach, a pharodrwydd busnesau. Hefyd roedd y papur yn rhoi crynodeb o ba mor fawr y gallai'r effeithiau ar sectorau ar draws y portffolio EPRA fod, pe na bai cytundeb, a'r amrywiaeth o bethau newydd y byddai angen i fusnesau eu gwneud i addasu i'r amgylchedd masnachu gwahanol.

3.6 Nododd yr Is-bwyllgor y papur.

Eitem 4: Brexit a Pholisi Gwyddoniaeth

4.1 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y Prif Gynghorydd Gwyddonol i gyflwyno'r papur a oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor gytuno mewn egwyddor ar y nesaf yn y gyfres o bapurau polisi Brexit, o dan y teitl 'Wales: Growing Research for Prosperity'.

4.2 Roedd y papur polisi yn canolbwyntio ar wyddoniaeth ac ymchwil, sef y pethau sy'n gyrru ffyniant yn nhyb y rhan fwyaf o wledydd datblygedig.

4.3 Er gwaethaf y lefel isel o gyllid Ymchwil a Datblygu sydd wedi bodoli ers amser hir, roedd yn amlwg bod Cymru wedi bod yn llwyddiannus ac effeithlon iawn o ran tyfu swmp, ansawdd a chyrraedd rhyngwladol yr ymchwil ac arloesi y mae wedi eu cyhoeddi. O ran effaith yr ymchwil a wnaed a'r broses o sbarduno twf ar draws economi Cymru, roedd Cymru wedi perfformio'n well na gweddill y DU a llawer o wledydd yr UE dros y pedair blynedd diwethaf.

4.4 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur mewn egwyddor.

Eitem 5: Deddfwriaeth / offerynnau statudol

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch diddymu Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, Deddfwriaeth Parhad yr Alban, a Phapur Gwyn Bil y Cytundeb Ymadael DE. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Filiau eraill Llywodraeth y DU a hynt y gwaith o gywiro Offerynnau Statudol. Roedd y papur hefyd yn ystyried y canllawiau ar gyfer rhoi sylw i faterion sy'n codi o'r gwaith o gywiro diffygion, a chydweithio â'r Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys ar Fil Parhad yr Alban a'r materion a godwyd gan Adfocad Cyffredinol yr Alban Llywodraeth y DU – a oedd yn ôl pob golwg yn ymosodiad sylfaenol ar egwyddorion y setliad datganoli – heb ddod i law hyd yn hyn. Fodd bynnag, gan ddilyn telerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU, nodwyd bod y Cabinet wedi cytuno'r diwrnod blaenorol y byddai'r cynnig i ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei restru ar agenda'r Cyfarfod Llawn, i'w drafod ar 20 Tachwedd.

5.3 Nododd yr Is-bwyllgor y papur diweddarau.

Eitem 6: Unrhyw Fater Arall

6.1 Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid grynodedb o'r wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Bontio'r UE, gan nodi y byddai rhagolygon gwariant ar gyfer y dyraniadau, a oedd eisoes wedi eu cytuno gan yr Is-bwyllgor, yn cael eu paratoi. Pe ragwelid tanwariant ar y prosiectau hynny, fe gâi cytundeb ei geisio gan yr Is-bwyllgor, ar gyfer ailddyrrannu'r cyllid i brosiectau addas a oedd ar y rhestr wrth gefn.

6.2 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Tachwedd 2018**